

Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod: 01.05.2018
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol: Y Cynghorwyr, Arwel Nicholas, Derick Lock, Pamela Jones, Eirion Evans, Elfed Davies, Gethin Edwards, Dylan Jones, Cyngorydd Sir, Irfon Jones
Ymddiheuriadau: Cyngorydd Danny Davies

Rhif Agenda	Nodiadau/ Penderfyniadau	I'w weithredu gan
Datgan Buddiannau	Neb	
Cofnodion	Ychwanegu enw Arwel Nicholas I'r 'Presennol'	
Materion yn Codi	<p>Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabuddiaethau Ariannol – Clerc wedi mynychu cyfarfod a drefnwyd gan IRPW ac wedi eu hatgoffa nad oedd ateb wedi ei dderbyn I'r llythyr. IRPW yn cydnabod hynny ac yn dweud fod ateb ar fin dod oherwydd fod y llythyr bellach wedi ei gyfieithu!</p> <p>Swyddfa Archwilio Cymru – Clerc wedi derbyn ateb I'w lythyr heddi ond heb gael amser I'w ddarllen. Cytunwyd trafod yr ateb yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Cynllun Gwella Trafnidiaeth Llanpumsaint – Clerc I drafod gyda John McEvoy dyddiad I ymweld â'r pentref I drafod y cymal diwethaf o'r Gwaith.</p>	
Gohebiaeth	Dim byd I'w gofnodi	
Cynllunio	Dim	
Materion Ariannol	Trywydd, £54.00 – Cytunwyd I'w dalu; ED & GE Cyflog y Clerc, £130.60 – Cytunwyd I'w dalu; AN & PJ	
UFA	<p>AN – Carafan Penrhiwfach; beth yw'r diweddaraf? IJ yn adrodd fod pethau ar waith.</p> <p>DL – wedi derbyn galwad ffôn oddi wrth aelod o'r gymuned oedd yn holi am y twmpath o hen dar sydd yng nghilfan Cŵpers; Clerc I wneud ymholiadau.</p> <p>PJ – Cyflwr gwael heol Bronwydd, IJ yn adrodd fod Gwaith cywiro wedi ei wneud</p> <p>EE – Dim</p> <p>IJ – Er mwyn rheoli'r sbwriel sydd yn cael ei adael gerllaw cyffordd Llainwen, ar waelod yr heol sydd yn mynd I Llwyncrychyddod ayyb, rhoddir clo ar y bins ac allwedd I'r trigolion sydd â'r hawl I'w ddefnyddio.</p> <p>ED – Ddim am gyfeirio at bethau arall oherwydd nid yw'r pethau a godwyd yn y cyfarfod diwethaf wedi eu gwneud eto....</p> <p>GE – Dim</p> <p>DJ – Son fod gwelliannau wedi eu gwneud I heolydd Nebo ond ei fod heb eu gweld.</p>	

Cyfarfod yn gorffen	8.50 yh	

Cafwyd yn gywir :	Cafwyd yn gywir :
(Cadeirydd)	(Ysgrifennydd)
Dyddiad :	Dyddiad: